

# GLYNN VIVIAN

## Datganiad hygrychedd



Oriel Gelf Glynn Vivian. Llun a dynnwyd o ochr arall y ffordd, yn edrych ar draws y brif fynedfa fodern a'r adeilad a adeiladwyd ym 1911. Mae coed yn y blaendir ac mae'r awyr yn las uwchben.

### Cyflwyniad

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian, sydd yng nghanol dinas Abertawe, yn cyflwyno arddangosfeydd o gelf gyfoes a hanesyddol yn ogystal â gweithdai a digwyddiadau. Mae Glynn Vivian hefyd yn cynnal digwyddiadau yn y Ddarlithfa sydd ar gael i'w llogi ymlaen llaw.

Mae Glynn Vivian ar gael i bawb ac rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch [oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk](mailto:oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk) neu ffoniwch 01792 516900

**Cyn i chi gyrraedd:** I gael gyfarwyddiadau llawn o ran sut i gyrraedd, ewch i'n gwefan, [www.orielglynnvivian.org/ymweld](http://www.orielglynnvivian.org/ymweld). I gael gyfarwyddiadau gyrru llawn, ewch i [www.theaa.com/route-planner](http://www.theaa.com/route-planner) a nodwch eich côd post chi yn ogystal â'n côd post ni, sef SA1 5DZ.

Mae gan y cwmnïau tacsis canlynol dacsis hygyrch a gellir eu cysylltu â nhw fel a ganlyn:

Datacabs - 01792 474747

Rhaid cadw lle ymlaen llaw

Mae adeilad yr oriel yn hollol hygyrch i'r holl ymwelwyr.

Er nad oes unrhyw leoedd parcio yn yr oriel, mae dwy gilfach barcio a chilfach barcio i bobl ddod oddi ar goetsis ar gael y tu allan i'r oriel. Mae'r gilfach sydd syth o flaen gardd yr oriel ar gyfer deiliaid bathodyn anabl yn unig ac mae'n gyfyngedig i 2 awr.



Dau lun, y ddelwedd gyntaf yn dangos y brif fynedfa, rhwng yr adain fodern a'r adeilad a adeiladwyd ym 1911. Mae'r ail ddelwedd yn dangos y brif fynedfa y tu allan, gyda golygfa i mewn i'r caffi a'r dderbynfa drwy'r blaen gwydr.

## Prif fynedfa

O ochr ogleddol Heol Alexandra (gyferbyn â Choleg Celf Abertawe), mae prif fynedfa ag arwydd yn yr adain fodern gyda drysau awtomatig dwbl sydd ar yr un gwastad â'r palmant.

Nid oes unrhyw risiau yn y brif fynedfa na'r dderbynfa ac maent yn hollol hygyrch.

Mae cyfleusterau dolen glyw ar gael yn y brif dderbynfa. Nodir y rhain yn glir; siaradwch ag aelod o staff am gymorth.

Mae meinciau a chadeiriau ar gael o amgylch yr oriel fel bod ymwelwyr yn gallu gorffwys a myfyrio ar y darnau o gelf.

Mae'r lleoedd wedi'u goleuo'n dda, y mae rhai ohonynt â golau naturiol a'r rhan fwyaf â sbotoleuadau.

Mae lefelau gwahanol yr oriel yn gwbl hygyrch trwy ddefnyddio'r lifft yn y dderbynfa.



Llun o siop yr oriel. Tair stand wen, uchder canolig. Silffoedd wedi'u gosod ar y wal i'r chwith. Desg y dderbynfa yn y cefndir.

## Y Siop

Mae'r siop yn y brif dderbynfa, yn union i'r chwith o ddrysau'r brif fynedfa.

Mae'r llawr yn wastad trwy'r holl ardal hon.

Mae'r cownter yn cynnwys rhan isel.

Ceir rhai nwyddau yn uchel ar silffoedd, felly gofynnwch i staff am gymorth os oes ei angen arnoch.

Bydd staff yn sicrhau bod digon o le rhwng stondinau nwyddau fel bod y siop yn gwbl hygyrch. Os oes unrhyw broblemau, mae ein stondinau nwyddau ar olwynion a gellir eu symud, felly siaradwch â staff os oes angen cymorth arnoch.



Llun o ddesg y dderbynfa i'r dde a'r ardal eistedd oren i'r chwith. Mae llawr llwyd yn arwain at gownter y caffi syth ymlaen.

## Caffi

Mae'r caffi gerllaw'r siop yn y dderbynfa, drwy'r brif fynedfa ac i'r chwith.

Gellir cael gwybodaeth am alergeddau drwy ofyn i staff y caffi. Rhowch wybod i staff y caffi cyn archebu unrhyw beth os oes gennych unrhyw anghenion deietegol penodol.

Bydd staff y caffi yn hapus i aildrefnu byrddau a chadeiriau i ddiwallu anghenion unigol.

Darperir cadeiriau uchel ar gyfer babanod.

Mae toiledau a chyfleusterau Changing Places hygyrch ar gael gerllaw'r caffi.

Mae'r cownter ar uchder canolog, ond mae'r holl fwydlenni wedi'u harddangos yn glir ac mae staff bob amser yn falch o helpu.

## **Toiledau hygrych**

Mae toiledau hygrych ar wahân a chyfleusterau i newid cewynnau babanod yn ogystal â chyfleusterau toiled ar gyfer dynion, menywod a phobl niwtral o ran rhywedd ar y safle.

Mae toiledau hygrych yn y dderbynfa ar yr un gwastad â'r palmant ac ar yr ail lawr ger y lifft y tu allan i Ystafell 9.

Mae'r drysau i fynd i mewn i'r toiledau hygrych yn 92cm o led.

Gosodir canllawiau gyferbyn â'r toiled ar yr ochr chwith yn y dderbynfa ac ar yr ochr dde ar yr ail lawr.

Nid oes angen unrhyw allwedd i gael mynediad i'r toiled hygrych.

## **Changing Places**

Lleolir y cyfleuster hwn gerllaw'r caffi yn y brif dderbynfa.

Mae angen allwedd i gael mynediad iddo. Siaradwch ag aelod o staff yn y dderbynfa am gymorth.

Ceir mwy o wybodaeth yn

[www.abertawe.gov.uk/article/12178/Changing-Places-toilets](http://www.abertawe.gov.uk/article/12178/Changing-Places-toilets)

## **Ystafell Gypyrddau**

Mae ystafell gypyrddau gyhoeddus ar gyfer cotiau a bagiau ar gael yn yr islawr, ond nid yw'r ardal hon yn gwbl hygrych.

Os oes angen i chi adael eich cotiau a'ch bagiau, siaradwch ag aelod o staff yn y dderbynfa a fydd yn falch o'ch helpu.

## **Ystafelloedd cymunedol**

Mae'r Ddarlithfa (Ystafell 1, ar gael i'w llogi), y Stiwdio Ddysgu (Ystafell 2), y Llyfrgell ac Ystafell yr Ardd ar Lawr 1 yn yr adeilad gwreiddiol o 1911. Gellir defnyddio'r lifft i fynd i'r rhain ac nid oes unrhyw risiau ar y llawr hwn.

Gellir cael mynediad i'r ardd ar y llawr hwn drwy fynd drwy Ystafell yr Ardd ac mae ganddi ardal batio wastad fawr. Wrth ymyl hon, ceir rhai ardaloedd uwch y gellir cael mynediad iddynt drwy ddefnyddio'r grisiau ac ardaloedd y gellir cyrraedd drwy ddefnyddio'r ramp.

## **Arddangosfeydd a chasgliadau**

Gellir dod o hyd i'r holl weithgareddau, sgysiau a theithiau cysylltiedig ar ein gwefan, [www.orielglynnvivian.org](http://www.orielglynnvivian.org), neu ffoniwch 01792 516900.

Mae gwarbaciau synhwyrdd ar gael yn y dderbynfa i blant ac oedolion eu defnyddio drwy'r orielau. Gallwch ddod o hyd iddynt yn hongian ar y wal gyferbyn â'r dderbynfa. Mae'r gwarbaciau'n las ac maent yn cynnwys teganau synhwyrdd ac amddiffynnwr clustiau. Gofynnwch yn y dderbynfa am gymorth.

Mae lifft fawr iawn ar gael er mwyn cyrraedd y lloriau uwch.

Oherwydd natur celf gyfoes, weithiau dangosir darnau o gelf a allai achosi pryder neu fod yn amhriodol ar gyfer rhai cynulleidfaoedd; ffoniwch 01792 516900 i drafod eich anghenion unigol.

Nid oes unrhyw risiau ger drysau mynediad i unrhyw ran o'r oriel.

Mewn rhai arddangosfeydd, efallai y bydd effeithiau strôb, synau uchel neu dywyllwch; bydd gan y rhain rybuddion. Os oes gennych unrhyw bryderon, ffoniwch 01792 516900 neu e-bostiwch [oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk](mailto:oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk).

Ar lawr 1 yr adain fodern, mae gennym un fan artistig fawr ar gyfer arddangosfeydd dros dro, sef Ystafell 3. Gellir defnyddio'r lifft i gyrraedd yr ystafell hon ac nid oes unrhyw risiau ar y llawr hwn.

Ar lawr 2 yr adeilad sy'n dyddio o 1911, mae gennym chwe man artistig, sef ystafelloedd 4-9. Gellir defnyddio'r lifft i gyrraedd yr ystafelloedd hyn ac nid oes unrhyw risiau ar y llawr hwn.

Ar lawr 3 yr adain fodern, mae un ardal adnoddau, sef Ystafell 10. Gellir defnyddio'r lifft i gyrraedd yr ystafell hon ac nid oes unrhyw risiau ar y llawr hwn.

Rydym yn cynnal amrywiaeth o arddangosfeydd ac mae rhai yn cynnwys celf ryngweithiol a allai beri problemau o ran hygyrchedd a synhwyraidd eraill. Os oes gennych unrhyw bryderon am ein harddangosfeydd presennol, ffoniwch 01792 516900 neu e-bostiwch [oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk](mailto:oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk).

Mae map/cynllun o'r oriel ar gael yn y dderbynfa ac ar ein gwefan, [www.orielglynnvivian.org](http://www.orielglynnvivian.org).

## **Gwybodaeth ychwanegol**

Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n cynnwys hyfforddiant eang am ymwybyddiaeth o anabledd.

Mae amddiffynwyr clustiau ar gael ar gais o'r dderbynfa.

Mae gennym weithdrefnau llym ar gyfer gadael yr adeilad neu argyfwng ac, os bydd angen gwacáu'r adeilad, gall aelod o staff eich cynorthwyo naill ai i adael yr adeilad neu i gyrraedd man lloches.

Mae amddiffynwyr clustiau ar gael ar gais o'r dderbynfa.

Mae croeso i gŵn cymorth yn Oriel Gelf Glynn Vivian. Gofynnwch i aelod o staff os oes angen powlen ddŵr ar gyfer eich ci. Mae powlenni ar gael o'r dderbynfa.

O ran lle i aros dros nos, mae gan y Dragon Hotel, sydd 10 munud i ffwrdd o'r oriel ar droed, gyfleusterau hygyrch sy'n addas i gadeiriau olwyn.

## **Gwybodaeth Gyswllt**

**Cyfeiriad: Oriel Gelf Glynn Vivian, Heol Alexandra, Abertawe  
SA1 5DZ**

**Rhif ffôn: 01792 516900**

**E-bost: [oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk](mailto:oriel.glynn.vivian@abertawe.gov.uk)**

**Gwefan: [www.orielglynnvivian.org](http://www.orielglynnvivian.org)**

**Oriau agor: 10.00am – 4.30pm o ddydd Mawrth i ddydd Sul a  
gwyliau'r banc**